Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gâr
Primary Schools Forum

Ymgyrchu i ddiogelu a datblygu ein hysgolion pentrefol - Campaigning to safeguard and develop our village schools

Beth NA ddywedodd y Cyngor wrthoch chi am eu cynlluniau addysg…

Bydd llawer ohonoch wedi gweld atodiad 12 tudalen diweddar Cyngor Sir Gâr (a gostiodd sawl mil o bunnau) yn rhoi cyflwyniad cwbl unochrog o'u cynllun deng-mlynedd: Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg (neu'r MEP).

Maen nhw'n honni bod eu cynllun £100M + (sy'n cynnwys cynlluniau i godi ysgolion cynradd ardal mwy o faint a chau tua deugain o ysgolion cynradd cymunedol), wedi cael croeso gwresog gan rieni, athrawon a llywodraethwyr ym mhob cwr o Sir Gaerfyrddin.

Beth **NAD** ydyn nhw'n ei ddweud yw bod y cynllun wedi ei feirniadu'n llym gan lawer. Yn wir, sefydlwyd **Fforwm Ysgolion Cynradd** sirol er mwyn uno lleisiau sy'n anfodlon â'r bwriad i gau cymaint o ysgolion bach heb unrhyw gyfiawnhad – ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol, yn fywiog ac yn bwysig iawn i'w cymunedau. Os oedd y Cyngor Sir mor sicr y ***byddai'r*** cynllun yn cael "croeso gwresog", pam na roddwyd gwybodaeth na llais i athrawon, prifathrawon a llywodraethwyr wrth lunio'r MEP?

Yn wyneb sawl cyfle, mae'r Cyngor wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth addysgiadol i ddangos bod plant yn dysgu'n well mewn ysgolion mawr trefol eu naws.

Yn wir, cred nifer o addysgwyr bod addysgu plant ***o fewn*** eu cymuned leol yn gwneud cyfraniad allweddol at eu sefydlogrwydd a'u cynnydd; a bod ysgolion bach â grwpiau oedran cymysg yn hyrwyddo technegau dysgu blaengar ac yn creu unigolion cydwybodol gydag ymdeimlad cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn ***honni*** y byddant yn ymgynghori'n llawn ar bob cynnig unigol sydd yn yr MEP.

NID ydynt yn dweud bod eu cyllideb yn cynnwys £10M i ddod o werthu asedau (h.y. safleoedd ysgolion bach); felly does ***dim modd*** i unrhyw ymgynghoriad lleol fod yn wirioneddol agored gan y byddai unrhyw benderfyniad i beidio â chau ysgol yn sicr o greu twll mawr yn eu cyllideb gyfan. Maent hefyd yn gwbl bendant nad ydynt am gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad neu drafodaeth ar y cynllun yn ei gyfanrwydd.

NID ydynt yn dweud wrthoch nad ydynt wedi ystyried chwyddiant prisiau yn eu cynllun, a bod rhai prosiectau sydd ar y gweill (gyda'r £40M a glustnodwyd hyd yn hyn) wedi dangos eisoes y byddant yn costio mwy na'r disgwyl. Ydych ***chi'n*** gwybod am unrhyw gynllun adeiladu cyhoeddus mawr sydd wedi'i gwblhau o fewn y gyllideb wreiddiol?

Maent hefyd wedi hepgor costau trafnidiaeth ychwanegol a thaliadau diswyddo staff o'r amcanion cyllideb gwreiddiol.

Mae **Cymdeithas yr Iaith** a **Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gâr** wedi bod yn gweithio'n agos drwy gydol yr ymgyrch.

Mae'r Gymdeithas wedi herio cynghorwyr Sir Gâr i roi cyfle i bobl y sir leisio eu barn ar y Strategaeth Addysg, trwy gefnogi cynnig yn galw am drafodaeth ehangach ar y 9fed o Dachwedd. Yn ei llythyr at y Cynghorwyr, dywed y Gymdeithas: **Does DIM trafodaeth agored ac onest wedi bod hyd yma am:**

- Y posibilrwydd o gau ysgolion pentref. Mae'r MEP yn nodi'n unig: 'y byddai'n anochel fod llai o ysgolion'.
- ddulliau eraill fel clystyru na ffedereiddio ysgolion.
- Cafodd y diweddariad o'r Cynllun ei fabwysiadu yn Mai 2004 gan swyddogion heb hyd yn oed gyfeirio'r mater at y Cynghorwyr.
- Ni fydd yr ymgynghori statudol mewn ysgolion unigol yn deg nac yn onest, oherwydd fod y Cyngor yn dibynnu ymlaen llaw ar gau a gwerthu llawer o'r ysgolion er mwyn talu rhan o gost adeiladu'r ysgolion canolog newydd.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Rhowch gyfle i bobol Sir Gâr i fynegi eu barn am y Strategaeth addysg.

Gwesty'r Llwyn Iorwg
25ain Hydref am 7yh

Bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi yn y cyfarfod rhestr o gynghorwyr sydd wedi cytuno i gefnogi cynnig o'r fath.

Cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol i bwyso arno/arni i bleidleisio dros y cynnig a rhowch wybod i Angharad beth yw'r ymateb: 01559 384378 neu angharad.clwyd@cymdeithas.com

cymdeithas yr IAITH gymraeg

www.cadwneinhysgolion.com

Mae gwir ofn y bydd y cynllun yn colli stêm (a chyllid) ar ôl ychydig flynyddoedd, gan adael trefn addysg anghyflawn, problemau ariannol difrifol a pharhad i'r drefn o drwsio a phatsio wrth gynnal a chadw ysgolion Sir Gâr yn y dyfodol.

A wnaeth y Cyngor ***Llawn*** gynnal pleidlais erioed ar yr MEP? ***NADDO,*** dim ond y Bwrdd Gweithredol.

Ym mis Rhagfyr 2004, dywedwyd wrth y Cyngor Llawn y byddai trafodaeth a phleidlais gan y Cyngor ***Llawn*** ar bob cynnig unigol o fewn yr MEP; fodd bynnag, mae Prosesau Ymgynghori'r Awdurdod Addysg (a ddobarthwyd i nifer fach o unigolion) yn nodi y bydd unrhyw wrthwynebiadau i gynigion yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Gweithredol yn cadarnhau neu wrthod y cynigion. Does dim son am unrhyw ystyriaeth neu bleidlais gan y Cyngor ***Llawn***.

NID yw adeiladu o'r newydd yn sicrhau hir-oes

Mae'r Cyngor yn honni y bydd adeiladu ysgolion o'r newydd yn arwain at lai o wariant ar gynnal a chadw a gwell hyblygrwydd. Mae'r dystiolaeth sy'n chwalu'r ddadl hon wedi'i chynnwys yn eu dogfen ddrafft MEP eu hunain sy'n nodi bod adeilad Ysgol Dewi Sant (ysgol fawr gydag adeilad llai na 30 oed) yn "annigonol" a bod angen adeilad cwbl newydd gwerth £4M nawr! Mae'r ffaith nad yw'r adeiladau yn Ysgol Dewi Sant yn ddigon hyblyg i gael eu haddasu neu eu hestyn i gwrdd â gofynion y niferoedd presennol yn dangos gwallau sylfaenol yn y cynllun gwreiddiol – camgymeriad sy'n debygol o gael ei ailadrodd ledled y sir.

I'r gwrthwyneb, mae llawer o'r safleoedd ysgol Fictorianaidd cynhenid wedi dangos eu gallu i gael eu haddasu dros genedlaethau. Canlyniad i ddiffyg cynnal a chadw a datblygu di-ddychymyg yw'r rhan fwyaf o'r gwendidau presennol.

Beth am yr amgylchedd? Beth am ddiogelwch plant?

Mae'n syfrdanol nad yw'r Cyngor wedi cynnal unrhyw fath o asesiad impact amgylcheddol ar eu cynllun MEP. Beth am y budd i blentyn o allu cerdded i'r ysgol? – neu'r cynnydd yn nifer y ceir a'r bysiau ar heolydd bach gwledig wrth i blant gael eu cludo i'r ysgolion ardal newydd? – neu'r effaith ar blant ifainc iawn fydd yn gorfod treulio oriau bob wythnos ar fysiau ysgol? – neu'r gost a'r anghyfleustra i rieni sy'n gorfod teithio nôl a 'mlaen yn eu ceir er mwyn i'w plant gael ymuno â gweithgareddau ar ôl ysgol? – neu ddiogelwch plant ar fysiau. Mae'r Cyngor naill ai heb ystyried neu'n gwrthod dweud dim am y cwestiynau allweddol hyn

Trychineb Datblygu Cymunedol

Os bydd y Cyngor yn parhau i wthio'r MEP yn ei flaen, bydd yn gyfrifol am rwygo'r galon allan o nifer o gymunedau gwledig hynaf Sir Gâr ac ni fydd unrhyw honiadau o ddatblygu cymunedol na llywodraeth cydlynus yn dal dŵr. Bydd dewis rhieni wedi'i gyfyngu i'r graddau na fydd o unrhyw werth.

Bydd cymeriad unigryw ein sir yn diflannu am byth ac ni fydd modd cwrdd ag anghenion addysgol ein plant, os na fydd y Cyngor yn newid cyfeiriad.

Mae'r Fforwm Ysgolion Cynradd

yn agored i unrhyw un sy'n rhannu ein pryderon ynghylch cynnwys a chyfeiriad polisi'r Cyngor, ac unrhyw un sy'n gweld gwerth mewn darparu addysg gynradd o fewn cymunedau Sir Gâr.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae pobl Sir Gâr yn haeddu proses ymgynghori lawn ar impact polisi'r Cyngor Sir ar ddyfodol ein hysgolion bach a'n cymunedau gwledig.

Gan nad yw'r Cyngor Sir am gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ar yr MEP cyflawn, mae'r Fforwm wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd yn yr ardaloedd a effeithir fwyaf. Gwahoddir cynghorwyr lleol i'r cyfarfodydd hyn i wrando ar yr etholwyr ac i nodi eu safbwynt eu hunain.

Cynhelir cyfarfodydd:-

Hydref 6ed
7.30pm
Gwesty'r Castell
Llanymddyfri

Hydref 13eg
7.30pm
Neuadd Carwe
Carwe

Hydref 20fed
7.30pm
Neuadd Bentref
Carmel

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:-
Mark Vincent ar 01239 711895
vincent@caegwyntog.plus.com
neu Ioan Hefin ar 07980 148867
ioan@ioanhefin.com
neu ewch i ymweld â'r wefan
www.cadwneinhysgolion.com

Cyhoeddwyd gan:- Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gâr

Argraffwyd gan:- Lewis Printers, Caerfyrddin, 01267 233510

Diolchwn am bob cefnogaeth ariannol gafwyd gan bobol Sir Gaerfyrddin er mwyn cynhyrchu'r atodiad hwn. Gellir gwneud unrhyw gyfraniadau pellach yn daladwy i 'Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gâr' trwy ddanfon siec at Tegid Dafis, Trysorydd y Fforwm, Penallt Uchaf, Llanarthne, Caerfyrddin, SA32 8HY